## Rhagair

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"), os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau y diwellir ei anghenion o ran lles. Mae'r cod hwn yn esbonio'r hyn y mae angen i chi ei wneud i gyrraedd safon y gofal sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu warcheidwad i blentyn o dan 16 mlwydd oed, chi sy'n gyfrifol am unrhyw anifail yng ngofal y plentyn hwnnw neu unrhyw anifail y mae'r plentyn hwnnw yn berchen arno.

Nid yw torri darpariaeth yn y cod hwn yn drosedd ynddi'i hun ond, os dygir achos yn eich erbyn am drosedd lles o dan y Ddeddf, efallai y bydd y llys yn ystyried i ba raddau rydych wedi cydymffurfio â'r cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu gyrraedd y safon gofal ofynnol. Ni ddylech beri i'ch anifail ddioddef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd ddifrifol o dan y Ddeddf.

Fe welwch hefyd gyfeiriad yn y cod at 'arbenigwyr gofal anifeiliaid anwes', sef pobl a all, drwy gymhwyster neu brofiad, roi cyngor arbenigol ar les a rhai agweddau ar iechyd am un neu fwy o fathau o anifail anwes. Enghreifftiau yw ymddygiadwyr anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a sefydliadau lles penodedig. Dylai ceidwaid ofyn i'w milfeddyg am gyngor ar iechyd eu hanifail ac wedyn droi at arbenigwyr gofal anifeiliaid anwes.

Am ragor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a manylion eich cyfrifoldebau o dan y Ddeddf honno, gweler Atodiad 1 ar ddiwedd y cod hwn. Am ragor o ffynonellau gwybodaeth, gweler Atodiad 2.

Dylech fod yn ymwybodol fod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y cod ac yn Atodiad 1 yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi ond y gall newid wedi hynny.

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r cod ond bwriedir iddo esbonio ei ddiben a'i nodau cyffredinol. Yn yr un modd, nid yw Atodiad 1, sy'n rhoi gwybodaeth am y gofynion cyfreithiol perthnasol, nac Atodiad 2, sy'n rhestru rhai ffynonellau gwybodaeth ychwanegol, yn rhan o'r cod.

DRAFFT

**Cynnwys**

Cyflwyniad Tudalen 4

**Rhan 1**

Crynodeb Gweithredol Tudalen 5

**<u>Rhan 2</u>**

Adran 1: Amgylchedd Tudalen 9
*Yr angen am amgylchedd addas*

Adran 2: Deiet Tudalen 14
*Yr angen am ddeiet addas*

Adran 3: Ymddygiad Tudalen 18
*Yr angen i allu dilyn patrymau ymddygiad arferol*

Adran 4: Cwmni Tudalen 23
*Yr angen i gael ei rhoi gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt*

Adran 5: Iechyd Tudalen 25
*Yr angen i'w diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd*

**Atodiad 1**

Y gyfraith Tudalen 29

**Atodiad 2**

Ffynonellau gwybodaeth Tudalen 32

DRAFFT

**Cyflwyniad**

- Mae bod yn berchen ar anifail anwes a gofalu amdano yn hwyl ac yn rhoi llawer o bleser, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad hirdymor o ran arian a gofal. Chi sy'n rheoli ffordd o fyw eich anifail anwes; eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn diwallu ei anghenion, waeth beth fo'r amgylchiadau.

O dan y gyfraith, mae'n rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion eich cath yn cael eu diwallu, gan gynnwys:

- Mae ganddo amgylchedd addas i fyw ynddo
- Mae'n cael deiet iach
- Gall ymddwyn mewn ffordd arferol
- Mae'n byw gyda, neu ar wahân i, anifeiliaid eraill
- Mae'n cael ei ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd

Ceir esboniad manylach o'r rhain yn adrannau 1-5 o'r cod hwn. Am ragor o gyngor, siaradwch â'ch milfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes. Rhestrir ffynonellau gwybodaeth eraill yn Atodiad 2.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich cath, byddwch yn sylwi ar nodweddion cyfarwydd. Mae'n bwysig eich bod yn gallu sylwi ar unrhyw newidiadau mewn ymddygiad, gan y gallai'r rhain fod yn arwydd fod eich cath mewn cyflwr gofidus neu'n sâl, neu nad yw ei hanghenion yn cael eu diwallu mewn rhyw ffordd arall.

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan Adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y "Ddeddf"). Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn gan Weinidogion Cymru ac fe ddaeth i rym ar 28 Tachwedd 2008. Daeth fersiwn gyfredol i rym ar XXX. Mae'n berthnasol i Gymru yn unig. Diben y cod ymarfer hwn yw rhoi cyngor o ran sut i ddiwallu anghenion eich cath. Mae'n cwmpasu pob cath y mae rhywun yn gyfrifol amdani.

Mae i'r cod hwn ddwy adran. Mae Rhan 1 yn grynodeb o'r manylion a geir yn y cod ymarfer llawn, ac a enwir yn Rhan 2.

**Eich cyfrifoldeb chi yw darllen y cod ymarfer cyflawn i ddeall yn llwyr anghenion lles eich cath a'r hyn sy'n ofynnol gennych o dan y gyfraith.**

DRAFT

# Rhan 1

# Crynodeb o'r Cod Ymarfer ar Les Cathod

D

## Adran 1– Yr Amgylchedd

*Sicrhewch fod gan eich cath le addas i fyw ynddo*

Mae angen adnoddau personol ar bob cath, felly dylech gynnig digon o bowlenni, blychau sarn, mannau gorffwys ac ati. Os oes gennych fwy nag un gath, mae hyn yn golygu bod angen un ar gyfer pob cath sy'n byw ar yr aelwyd, yn ogystal ag un ychwanegol er mwyn cynnig dewis a lleihau'r tebygolrwydd y bydd un gath yn cael ei rhwystro gan gath arall.

**Cysgu a gorffwys**
Dylech sicrhau bod lle gorffwys cyfforddus, sych a heb ddrafftiau ar gael i'ch cath y mae'n gallu mynd iddo bob amser a lle y bydd yn teimlo'n ddiogel.

Mae angen i gathod gael cyfleoedd i ddringo, neidio a chuddio, megis gwely 'platfform' syml neu ffordd ddiogel o gyrraedd silffoedd neu ben cypyrddau.

Efallai y bydd yn well gan gathod nad ydynt fel arfer yn byw â phobl, megis rhai cathod fferm, fyw y tu allan i'r cartref, ond bydd arnynt angen mynediad at gysgodfan heb ddrafftiau a sych, a bydd angen o hyd i chi ofalu amdanynt.

**Peryglon**
Sicrhewch na all eich cath ddod i gysylltiad â sylweddau a allai fod yn niweidiol.

**Teithio**
Sicrhewch fod eich cath yn cael ei chludo'n ddiogel.

Ni ddylid gadael cathod ar eu pennau eu hunain mewn cerbyd. Mewn tywydd poeth, **gall hyn fod yn berygl bywyd.**

**Mynd i'r toiled**
Dylai fod lle addas i'ch cath fynd i'r toiled. Efallai y byddai'n well gan rai cathod fynd i'r toiled y tu allan. Fodd bynnag, mae angen mynediad parhaol ar gathod at flwch yn y tŷ rhag ofn bod adegau pan nad ydynt yn fodlon neu pan nad ydynt yn gallu mynd i'r toiled y tu allan.

DRAFFT

## Adran 2 – Deiet

*Sicrhewch fod eich cath yn cael deiet cytbwys sy'n diwallu ei hanghenion o ran maeth.*

**Mae'n rhaid sicrhau bod dŵr ffres a glân ar gael i'ch cath drwy'r amser**

**Pa mor aml y dylech fwydo'ch cath**

Dylai'ch cath fwyta'n rheolaidd ac mae'n rhaid ei bwydo o leiaf unwaith y dydd.

Cig yw prif fwyd cathod. Ni allant fwyta llysiau yn unig.

**Pwysau Iach**
Ni ddylai'ch cath fod yn rhy dew nac yn rhy denau. Gallwch asesu pwysau'r gath drwy weld a allwch deimlo ei hasennau; Os yw'n anodd eu teimlo efallai ei bod dros bwysau. Os yw'r asennau a'r asgwrn cefn yn amlwg, yna efallai fod eich cath o dan y pwysau iawn ac yn sâl. Os oes gennych amheuon, gofynnwch i'ch milfeddyg a yw'ch cath o fewn yr amrediad pwysau cywir.

**Anghenion deietegol eraill**
Mae gan rai cathod anghenion deietegol gwahanol; eich milfeddyg yw'r person gorau i'ch cynghori ynglŷn â gofalu am eich cath o dan yr amgylchiadau hyn

## Adran 3 – Ymddygiad

*Dylai'ch cath fod yn gallu ymddwyn mewn ffordd arferol*

**Cymdeithasoli**
Mae cymdeithasoli â phobl, cathod ac anifeiliaid eraill, a dod i arfer â synau cyffredin, yn rhan hanfodol o ddysgu ar gyfer cath ifanc. Mae cyfnod pwysig o ddysgu cynnar rhwng oddeutu dwy i saith wythnos oed, ond gall barhau ychydig yn hirach.

**Ymddygiadau nodweddiadol**
Mae ymddygiad megis hela yn bwysig i gathod. Gallwch ddiwallu'r angen hwn drwy chwarae gan ddefnyddio teganau priodol. Mae ymddygiad megis crafu neu drin crafangau yn arferol; gallwch brynu postyn craffu o'r math cywir yn y rhan fwyaf o siopau anifeiliaid anwes.

**Ymarfer corff**
Sicrhewch fod eich cath yn cael ymarfer corff bob dydd i gadw'n holliach. Os nad yw'n mynd y tu allan, darparwch weithgareddau addas yn y tŷ fel nad yw'r gath yn mynd yn segur.

**Arwyddion o Straen**
Cadwch lygad ar eich cath am arwyddion o straen neu newidiadau yn ei hymddygiad.

## Adran 4 – Cwmni

*Sicrhewch fod anghenion cymdeithasol eich cath yn cael eu diwallu*

DRAFFT

**Ymddygiad cymdeithasol a pherthnasau gydag anifeiliaid a phobl eraill**
Sylwch ar y ffordd y mae'ch cath yn ymateb i gathod, anifeiliaid anwes neu bobl eraill, a sicrhewch y gall eu hosgoi os yw am wneud hynny.

Dylai'r rhai cyfrifol sicrhau y caiff y cathod yn eu gofal eu trin yn briodol ac nad yw pobl, plant nac anifeiliaid eraill yn peri straen na niwed iddynt.

Dylid cyflwyno cŵn i gathod yn ofalus iawn; dylai'r ci gael ei ddal yn ddiogel ar dennyn yn gyntaf fel na all redeg ar ôl y gath.

**Pan fyddwch oddi cartref**
Mae'n rhaid i chi drefnu bod anghenion eich cath yn cael eu diwallu tra byddwch oddi cartref.

**Niferoedd o anifeiliaid**
Mae cathod yn ôl eu natur yn hoffi bod ar eu pennau eu hunain felly gallai byw gyda chathod eraill nad ydynt yn perthyn iddynt beri llawer o straen iddyn nhw. Gallai cadw nifer o gathod â'i gilydd gynyddu'r perygl o afiechydon o ganlyniad i straen a chlefyd heintus. Mae'n well i beidio â chadw nifer fawr o gathod â'i gilydd, yn enwedig os nad oes ganddynt fynediad at yr awyr agored. Mae angen gofal mawr ar niferoedd mawr o anifeiliaid ac ni ddylech gadw nifer fawr o gathod os na allwch ddiwallu eu hanghenion lles.

## <u>Adran 5 – Iechyd</u>

*Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cath yn iach*

**Gofal iechyd**
Dylech archwilio'ch cath yn rheolaidd am arwyddion o anaf a salwch. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich cath yn cael ei thrin yn ddi-oed gan filfeddyg os yw'n cael ei hanafu neu os yw'n sâl. Bydd milfeddyg eich cath yn gallu eich cynghori ynglŷn â gofal iechyd rheolaidd, megis brechu, a thrin parasitiaid (e.e. chwain a llyngyr), yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd a all godi.

**Trin a golchi**
Dylech sicrhau bod blew eich cath wedi'i drin yn iawn. Efallai y bydd arbenigwr gofal anifeiliaid anwes yn gallu eich cynghori ynglŷn â gofalu am ei blew.

**Adnabod**
Dylai fod modd adnabod eich cath. Defnyddir dau ddull o adnabod cath fel arfer i helpu i olrhain ceidwaid cath pe bai'n mynd ar goll: gosod microsglodyn neu roi coler rhyddhau sydyn amdani sydd wedi'i osod yn gywir ac sy'n nodi manylion cyswllt ceidwad y gath.

DRAFT

**Ysbaddu**
Dylech ystyried ysbaddu'ch cath er mwyn sicrhau rhai buddiannau o ran iechyd ac er mwyn atal cathod bach dieisau rhag cael eu geni

DRAFFT

# Rhan 2

# Cod Ymarfer ar Les Cathod

## Adran 1: Yr Amgylchedd
***Yr angen am amgylchedd addas***

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar roi lle addas i'ch cath fyw ynddo.

Mae angen adnoddau personol ar bob cath, felly dylech gynnig digon o bowlenni, blychau sarn, mannau gorffwys ac ati. Os oes gennych fwy nag un gath, mae hyn yn golygu bod angen un ar gyfer pob cath sy'n byw ar yr aelwyd, yn ogystal ag un ychwanegol er mwyn cynnig dewis a lleihau'r tebygolrwydd y bydd un gath yn cael ei rhwystro gan gath arall.

### Cysgu a gorffwys

1.2. Bydd gan gathod gwahanol anghenion gwahanol. Efallai y bydd yn well gan gathod nad ydynt yn ddof iawn, megis rhai cathod fferm, fyw y tu allan i'r cartref gyda mynediad at gysgodfan heb ddrafftiau a sych. Bydd cathod sydd wedi arfer â bod yn y tŷ yn fwy tebygol o chwennych gwres a chysur y cartref.

Mae angen y canlynol ar gathod:

- lle cysgu/gorffwys sy'n lân, gyfforddus, yn sych a heb ddrafftiau. Mewn cartref lle mae mwy nag un gath, dylai fod digon o le i bob cath orffwys
- mannau ymguddio, megis gwely caeedig neu flwch, er y bydd yn well gan rai cathod guddio o dan gadair neu o dan eich gwely
- cyfleoedd i ddringo a neidio, megis gwely 'platfform' syml neu ffordd ddiogel o gyrraedd silffoedd neu ben cypyrddau
- cyfleoedd i brofi cylchredau golau/tywyllwch naturiol lle bo modd

Mae angen i gathod orffwys/cysgu am gyfnodau hir. Os na all cathod ddod o hyd i rywle lle teimlant y gallant orffwys yn ddiogel, gall hyn amharu ar eu cwsg ac effeithio ar eu hiechyd.

### Hylendid

1.3 Rhan o roi amgylchedd addas yw sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn lân.

### Peryglon

1.4 Mae cathod fel arfer yn osgoi bwyta pethau sy'n niweidiol. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau gall eu hymddygiad naturiol neu eu chwilfrydedd beri iddynt fwyta pethau a all fod yn wenwynig iddynt. Rhai enghreifftiau yw:

- . Mae cathod yn bwyta rhai planhigion tai neu flodau a dorrwyd megis lilïaid, sy'n wenwynig. Ni ddylid cadw planhigion o'r fath yn y cartref nac yn yr ardd. Sicrhewch fod unrhyw blanhigion mawr mewn cynhwysydd sefydlog nad

DRAFT

oes modd ei fwrw drosodd. Cathod chwilfrydig neu sy'n byw mewn cartrefi sy'n peri'r risg fwyaf, yn enwedig os nad oes ganddynt ddigon i'w wneud ac efallai y byddant yn archwilio planhigion na fyddent yn talu sylw iddynt fel arfer.

- Mae eich cath yn glanhau sylweddau gwenwynig o'i blew. Am fod cathod yn anifeiliaid glân iawn sy'n glanhau eu hunain yn rheolaidd, byddant yn ceisio tynnu unrhyw sylweddau sy'n gwneud i'w blew fod yn frwnt. Felly mae perygl y gallent fwyta gwenwynau megis paentiau, chwynladdwyr, paill lilïau ac ati. Dylech sicrhau y caiff unrhyw sylweddau gwenwynig o bosibl eu storio'n ddiogel ac y gwaredir unrhyw hylif a gollir yn ofalus.
- Dylech gadw'r holl nwyddau tŷ, megis rhai diheintwyr sy'n cynnwys ffenolau neu wrthrewydd ac ati, mewn man caeedig diogel, a sicrhau nad yw eich cath yn agos pan fyddwch yn eu defnyddio. Dylid nodi nad yw popeth sy'n ddiogel i bobl, hyd yn oed babanod, yn ddiogel i gathod.
- Bwyta bwyd ar gyfer pobl sy'n wenwynig i gathod, e.e. grawnwin, rhesins, syltaniaid, cyrens, siocled, melysydd xylitol.
- Meddyginiaethau a fwriedir i bobl neu anifeiliaid eraill. Mae'n bwysig i chi roi i gathod dim ond meddyginiaethau a ddosberthir yn benodol i gathod neu feddyginiaethau cymeradwy gan eich milfeddyg neu fferyllfa.

**Dylech bob amser gysylltu â'ch milfeddyg os ydych yn pryderu bod eich cath wedi dod i gysylltiad ag unrhyw beth a allai fod yn niweidiol.**

1.5 Mae peryglon posibl eraill yn cynnwys y canlynol:

- Pan fydd eich cath yn archwilio offer sy'n ei gwneud yn chwilfrydig megis peiriant sychu dillad.
- Syrthio o uchder. Os ydych yn byw mewn adeilad uchel, dylech sicrhau na all cath ddringo drwy ffenestri na balconïau er mwyn atal eich cath rhag syrthio. Gall cath ddringo'n eithaf uchel a gwasgu drwy dwll bach iawn, felly dylech edrych ar y rhwystrau hyn yn rheolaidd.
- Mannau caeedig lle mae gallu eich cath i symud wedi'i rwystro a lle nad yw'n gallu rheoli ei dymheredd ei hun, ac a allai ddod yn rhy boeth neu'n rhy oer, megis heulfannau neu gerbydau.

**Diogelwch gyda'r nos**

Efallai y bydd yn fwy diogel cadw cathod yn y tŷ dros nos, pan fydd mwy o risgiau i'w hiechyd a'u lles, ar yr amod nad yw hyn yn achosi straen iddynt.

**Teithio**

DRAFFT

1.7 Efallai y bydd angen i chi gludo eich cath yn y car neu mewn cerbyd arall. Yn y sefyllfa hon, nid oes gan eich cath reolaeth dros dymheredd ei hamgylchedd, ei bwyd na lle mae'n cysgu, felly, wrth deithio:

- Cyn i chi ddechrau'r daith, dylech sicrhau bod eich cath yn dod i arfer â chludwr cathod diogel drwy osod rhywbeth sy'n arogli o'r gath ynddo, megis dillad gwely neu degan, a chaniatáu i'r gath archwilio'r cludwr pan fydd yn ei hamgylchedd arferol. Dylai hyn wneud y daith yn llai brawychus. Dylid canmol ymddygiad da wrth i'r gath ddod i arfer â'r cludwr gyda melysion a ffafrir neu ffwdanu cadarnhaol.
- Dylech sicrhau na all eich cath symud yn rhydd drwy ei rhoi mewn cludwr cathod diogel o'r maint iawn gydag awyru da. Sicrhewch fod y cludwr yn sownd drwy ddefnyddio gwregys sedd, neu ei osod yn sownd, e.e. yn lle traed eich car, gan sicrhau awyru digonol. Dylech hefyd sicrhau nad yw'r cludwr yn cael ei roi lle y bydd eich cath yn mynd yn rhy boeth, megis mewn heulwen neu wrth ymyl gwresogydd y car. Peidiwch â rhoi'r cludwr yng nghist car salŵn.
- Lle nad oes modd osgoi teithiau hir, dylech gynnig dŵr, bwyd, a'r defnydd o flwch sarn yn rheolaidd, ond dim ond y tu mewn i'r cerbyd pan fydd wedi stopio.

1.8 Ni ddylid gadael cathod ar eu pennau eu hunain mewn car neu gerbyd arall. Gall y tymheredd yn y cerbyd fynd yn boeth iawn yn gyflym iawn ac achosi strôc gwres neu farwolaeth. **Gall hyn fod yn berygl bywyd a gallech gael eich erlyn am greulondeb.**

### Mynd i'r toiled

1.9 Mae angen i gathod fynd i'r toiled lle y gallant ymddwyn yn naturiol a theimlo'n gyfforddus. Mae'n well gan gathod le tawel, hawdd mynd ato, i ffwrdd oddi wrth fwyd a dŵr. Gall hyn fod mewn blwch yn y tŷ gyda digon o ddeunydd addas i'w caniatáu iddynt gloddio a chladdu eu gwaredon. Os byddai'n well gan eich cath fynd i'r toiled y tu allan, efallai yr hoffech ddod o hyd i fan priodol iddynt fynd i'r toiled yn eich gardd, yn ogystal â'i blwch yn y tŷ.

Cyngor ar fynd i'r toiled:

- Dylai fod gan gathod flwch sarn a/neu ardal yn yr ardd lle gallant balu a chuddio troeth a baw o dan bridd neu ddeunydd arall;
- Fel arfer, mae cathod yn dechrau ffafrio math penodol o sarn pan fyddant yn fach. Mae'n well cadw at y math o sarn y mae'ch cath yn ei ffafrio.
- Nid yw cathod yn hoffi defnyddio mannau lle mae llawer o faw, felly dylid glanhau'r blwch bob dydd a dylid glanhau a dadheintio'r blwch cyfan o leiaf unwaith bob wythnos. Dylai'r diheintydd fod yn un sy'n ddiogel i gathod a dylid ei olchi i ffwrdd yn llwyr.

- Dylid gosod blwch sarn mewn man lle mae'r gath yn teimlo'n ddiogel a lle nad yw anifeiliaid eraill, yn enwedig cathod eraill, na phobl yn debygol o amharu arni.
- Mae'n well peidio â gosod y blwch sarn yn agos at y man lle mae'r gath yn bwyta, yfed a chysgu.
- Dylid darparu o leiaf un blwch sarn fesul cath.
- Lle mae mwy nag un gath, dylai'r blychau sarn fod mewn gwahanol rannau o'r tŷ, fel y gall pob cath fynd atynt yn hawdd.
- Efallai bod cath sy'n cael anhawster mynd i'r toiled, neu sy'n mynd yn amlach nag arfer, neu sy'n mynd i'r toiled mewn mannau anarferol, yn sâl. Dylai ceidwaid ymgynghori â'u milfeddyg os yw eu cath yn dangos yr arwyddion hyn neu unrhyw newidiadau eraill o ran arferion mynd i'r toiled.
- Sicrhewch eich bod yn golchi'ch dwylo neu'n gwisgo menig pan fyddwch yn trafod blwch sarn eich cath, a sicrhewch na all plant bach ddod i gysylltiad ag ef.
- Dylai menywod beichiog, y rhai sy'n bwriadu beichiogi, a'r rhai sydd â systemau imiwnedd gwan osgoi cyffwrdd â gweddillion blwch sarn cathod, oherwydd gall arwain at salwch sy'n gallu effeithio ar blant heb eu geni.

DRAFFT

**<u>Adran 2: Deiet</u>**
***Yr angen am ddeiet addas***

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar roi deiet addas i'ch cath.

2.2 Rhaid sicrhau bod dŵr glân mewn bowlen lân ar gael i'ch cath drwy'r amser, ar wahân i'r bwyd. Mae hyn yn hanfodol i bob cath oni bai fod eich milfeddyg yn dweud fel arall. Efallai na fydd llawer o gathod yn yfed llawer o ddŵr ond gallant fynd yn fwy sychedig yn ystod tywydd poeth neu os ydych yn rhoi bwyd sych iddynt. Gall newidiadau o ran faint o ddŵr y mae'ch cath yn ei yfed hefyd fod yn arwydd o salwch.

**Deiet Cytbwys**

2.3 Mae'n hanfodol rhoi deiet maethlon a chytbwys o'r dechrau er mwyn sicrhau bod cath yn cael maethynnau hanfodol yn y meintiau cywir er iechyd da. Gall deiet da helpu i atal effeithiau llawer o glefydau.

2.4 Cig yw prif fwyd cathod, ac ni allant fwyta llysiau yn unig. Mae'n rhaid iddynt fwyta llawer o'r cyfansoddion a geir mewn cig yn unig a braster anifeiliaid er mwyn iddynt ffynnu a goroesi. Y rheswm dros hyn yw bod blynyddoedd lawer o esblygiad wedi'u troi'n helwyr mor llwyddiannus fel na allant greu rhai maethynnau o lysiau fel y gall rhywogaethau eraill ei wneud. Dylid bod yn ofalus iawn os ydych yn rhoi bwyd sy'n cael ei baratoi yn y cartref er mwyn sicrhau bod yr holl anghenion maethol yn cael eu diwallu. Mae defnyddio bwyd priodol a baratoir yn fasnachol yn llawer mwy dibynadwy. Dylid bod yn ofalus hefyd wrth fwydo deiet amrwd, gan sicrhau ei fod yn gytbwys o ran maetholion a dylid osgoi rhoi bwyd a allai fod wedi'i halogi gyda sylweddau heintus (germau).

2.5 Therefore cats have to eat certain proteins, vitamins and fatty acids available only from meat or commercially prepared cat food. Hefyd mae angen mwy o brotein arnynt na rhai rhywogaethau eraill, megis cŵn.

2.6 Mae gallu cath i dreulio llaeth yn mynd yn llawer llai ar ôl diddyfnu. Felly nid oes angen llaeth ar gath lawndwf mwyach, a allai arwain at broblemau iechyd; gan mai bwyd yw llaeth, nid yw'n cymryd lle dŵr hanfodol.

2.x Mae anghenion dietegol cathod yn newid yn ystod oes eu bywydau wrth iddynt heneiddio a ffactorau eraill megis salwch. Mae'n bwysig sicrhau bod deiet cath yn briodol i'w hanghenion presennol. Dylai unrhyw newidiadau i ddeiet cath gael eu gwneud yn raddol dros nifer o ddiwrnodau er mwyn osgoi amharu ar y system dreulio.

DRAFT

**Pwysau iach**

Mae'r maint o fwyd y gall cath unigol ei fwyta yn dibynnu ar gam ei bywyd a lefel gweithgarwch eich cath (neu gathod). Gall canllawiau gwneuthurwyr bwyd ar becyn bwyd cathod weithredu fel cyngor dechreuol, ond dylai'r maint o fwyd a roddir gael ei addasu er mwyn cynnal pwysau arferol ac iach.

2.7 **Mae cath ordew yn gath nad yw'n iach**. Bydd y rhan fwyaf o gathod ond yn bwyta cymaint ag sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, bydd rhai yn gorfwyta ac yn magu pwysau, gan arwain at ansawdd bywyd gwaeth. Gall gordewdra arwain at bob math o broblemau iechyd, gan gynnwys clefyd y galon a diabetes.

2.8 Mae'n bwysig cofio y gall anifail o dan y pwysau iawn fod yn sâl hefyd. Felly, dylech wybod beth yw'r pwysau gorau i'ch cath a cheisio sicrhau bod ei phwysau yn aros yr un peth mwy neu lai drwy gydol ei bywyd. Ceisiwch am gyngor gan eich milfeddyg os oes gennych unrhyw bryderon.

**Pa mor aml y dylech fwydo'ch cath**

2.10 Byddai cathod sy'n byw yn y gwyllt yn bwyta llawer o gnofilod neu adar yn ystod y dydd ac felly efallai y byddai'n well gan gathod sy'n anifeiliaid anwes fwyta prydau bach yn aml. Gall rhai cathod gael mynediad at faint mesuredig o fwyd drwy'r dydd, a byddant yn bwyta symiau bach pan fydd awydd ganddynt. Efallai y bydd rhai eraill yn bwyta nifer o brydau bwyd bach neu gwpwl o brydau bwyd mwy bob dydd. Mae'n dibynnu llawer ar yr hyn y mae'ch cath yn ei ffafrio a'ch ffordd o fyw ond dylech geisio dilyn yr hyn y mae'ch anifail anwes yn ei ffafrio hyd y gellir. Bydd angen rhoi prydau bach i gathod bach ac yn amlach nag i gathod llawndwf.

2.11 Dylai'r bwyd a roddwch i'ch cath fod yn ffres bob dydd. Gellir mesur y bwyd ar ddechrau'r dydd i wylio rhag gordewdra ymhlith y cathod hynny nad ydynt yn rheoli eu harchwaeth cystal. Darllenwch a dilynwch y manylion ar fwydo sy'n gysylltiedig ag unrhyw fwydydd cath yr ydych yn ei brynu er mwyn helpu i nodi'r maint cywir i roi bob dydd. Yn gyffredinol, mae'n well gan gathod fwyta sawl pryd o fwyd bach bob dydd felly mae'n syniad da rhannu'r bwyd ar draws nifer o brydau bob dydd. Pan gaiff cathod eu cadw yn y tŷ, gall ceidwaid roi peth bwyd sych mewn 'porthwyr pos', megis pêl y mae cath yn ei rholio ar hyd y llawr ac sy'n rhyddhau'r bwyd yn raddol. Mae hyn yn helpu i ddifyrru'r gath ac yn sicrhau na fydd yn mynd yn rhy segur.

**Anghenion deietegol eraill**

DRAFFT

2.12 Mae'n ddigon posibl y bydd anghenion deietegol cathod sy'n dorrog, sy'n magu eu cathod bach, sy'n sâl, yn hen, neu sy'n ifanc yn wahanol i anghenion cath lawndwf iach arferol. Eich milfeddyg yw'r person gorau i'ch cynghori ynglŷn â gofalu am eich cath o dan yr amgylchiadau hyn.

2.13 Fel y person sy'n gyfrifol am eich cath, disgwylir i chi wneud y canlynol:

- rhoi bwyd sy'n addas i'ch cath yn ôl ei hoedran a'i chyflwr;
- rhoi digon o fwyd i gadw'ch cath yn iach ond nid gormod i achosi gordewdra; a
- sicrhau bod yr un nifer o fowlenni o fwyd a dŵr ar gael â nifer y cathod. Dosbarthwch y rhain fel y gall pob cath fwyta ar wahân heb deimlo o dan fygythiad oddi wrth y lleill. Sicrhewch fod pob un o'r anifeiliaid yn cael digon o fwyd a dŵr sy'n addas at eu hanghenion unigol.

DRAFFT

**Cyflwr y corff**

2.9 **Rhy denau**

- Gellir gweld yr asennau ar gathod blew cwta;
- Ni ellir teimlo bloneg (lle ceir cwd o dan y bola mae'n wag, h.y. croen yn unig);
- Mae'r bola yn edrych yn wag oherwydd diffyg bloneg;
- Gellir gweld yr asgwrn cefn ac esgyrn y cluniau;
- Mae ychydig o gyhyr dros y cefn a'r cluniau, mae rhan uchaf y coesau'n teimlo'n "denau", mae asgwrn y pen yn amlwg iawn wrth ei anwesu. Mae'r gath yn teimlo'n "esgyrnog" wrth ei hanwesu.

**Delfrydol**

- Mae'ch cath yn edrych yn lluniaidd;
- Gellir gweld y wasg o'r tu ôl i'r asennau;
- Ceir cwd bola ond nid yw'r gath yn foliog;
- Gellir teimlo ond nid gweld yr asennau (gydag ychydig o floneg).

**Rhy drwm**

- Ni ellir teimlo'r asennau'n hawdd gan fod llawer o floneg;
- Nid yw'r wasg yn amlwg ac ni ellir dweud a oes gan gath gwd o groen;
- Yn grwn o ran siâp y corff, yn enwedig y bola (cofiwch fod bridiau'n wahanol i'w gilydd);
- Yn cael anhawster i neidio ar gadeiriau/byrddau/mynd i fyny'r grisiau.

DRAFFT

## Adran 3: Ymddygiad
***Yr angen i allu dilyn patrymau ymddygiad arferol***

3.1 Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar ymddygiad eich cath.

3.2 Er bod cathod wedi byw gyda ni yn ein cartrefi ers canrifoedd, mae eu hymddygiad yn debyg iawn o hyd i ymddygiad eu hynafiaid gwyllt. Mae cathod yn edrych ac yn ymddwyn fel y maent am mai helwyr ydynt yn y bôn ac mae angen o hyd iddynt gael ymddwyn mewn ffordd sy'n naturiol iddynt. Mae cathod wedi dysgu ymaddasu i'n trefn ddomestig a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau, ond mae angen iddynt hefyd amlygu eu patrymau ymddygiad naturiol.

3.3 Mae cathod yn profi amrywiaeth o emosiynau, gan gynnwys hapusrwydd, pryder ac ofn. Gall y ffordd maent yn ymddwyn a'u hiaith gorfforol eich helpu i ddeall yr hyn maent yn ei deimlo a pha un a ydynt yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

### Profiadau cynnar

3.3 Mae rhai cathod yn ôl eu natur yn fwy hyderus nag eraill. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae pob cath yn ymddwyn yn cael ei dylanwadu gan brofiadau cynnar, yn enwedig yn ystod y cyfnod cymdeithasoli cynnar rhwng yr ail a'r seithfed wythnos gyntaf o fywyd. Ar y cyfan, bydd cathod sy'n cael eu 'cymdeithasoli' yn dda ar yr oedran cynnar hwn yn gallu ymdopi'n hyderus fel cathod llawndwf gyda'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd newydd a phobl. Dylech sicrhau bod eich cath fach yn cael ei chyflwyno'n ofalus ac mewn ffordd gadarnhaol i bobl, gan gynnwys plant, â chŵn ac â chathod eraill, yn ogystal â dod i gysylltiad â golygfeydd a synau arferol yn y cartref mewn ffordd ofalus a rheoledig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu niweidio nac yn cael braw ond yn ystyried y rhain mewn modd cadarnhaol.

3.4 Efallai y bydd cathod llawndwf nad ydynt wedi cael y profiadau cynnar hyn yn ei chael yn anodd ymdopi â bywyd teulu o ddydd i ddydd. Efallai y bydd yn achosi straen iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo'n nerfus, a gwneud iddynt ymguddio cryn dipyn. Gan na all cathod bach fynd i gartrefi newydd nes eu bod yn wyth wythnos oed neu'n hŷn, ceidwad neu fridiwr y dorraid sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cathod bach wedi'u cymdeithasoli'n dda er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn anifeiliaid anwes hyderus a hapus.

### Diflastod a rhwystredigaeth

3.5 Mae cathod sy'n cael eu cadw yn y tŷ neu y mae'n well ganddynt fyw felly yn dibynnu arnoch chi i roi popeth iddynt, gan gynnwys difyrrwch. Dylech sicrhau bod eich cath yn cael digon o symbyliad meddyliol gennych chi a'i hamgylchedd i osgoi diflastod a

DRAFFT

rhwystredigaeth. Chi sy'n gyfrifol am roi cyfleoedd i'ch cath fodloni pob un o'i hanghenion ymddygiadol, megis chwarae a chwmnïaeth.

3.6 Gall rhai cathod sy'n teimlo rhwystredigaeth neu'n diflasu ddechrau dangos newidiadau mewn ymddygiad megis mynd i'w cregyn, gorfwyta, cysgu mwy ac ymddygiad ymosodol o bosibl neu dreulio gormod o amser yn glanhau eu hun.

**Cydnabod a deall ymddygiad**

Mae cathod yn profi amrywiaeth o emosiynau, gan gynnwys hapusrwydd, pryder ac ofn. Gall y ffordd maent yn ymddwyn a'u hiaith gorfforol eich helpu i ddeall yr hyn maent yn ei deimlo a pha un a ydynt yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

**Cathod bodlon, hapus**

3.x Mae cathod yn dangos hapusrwydd a bodlonrwydd mewn nifer o ffyrdd gwahanol, sy'n amrywio rhwng unigolion. Edrychwch ar yr hyn sy'n gwneud i'ch cath teimlo'n dda a rhowch gyfleoedd ar gyfer cysylltu â phobl a chwarae fel bo hynny'n briodol.

Gall arwyddion bod eich cath yn teimlo'n dda gynnwys:

- Canu grwndi
- Rholio ar y llawr, dangos ei hystumog
- Cynffon unionsyth gyda throad ar y pen
- Llygaid yn agor ac yn cau'n araf
- Chwarae, naill ai gydag unigolion eraill, gwrthrychau neu deganau
- Gorffwys gydag osgo corff ymlacedig
- Mae rhwbio ei hwyneb ar gyrff a phobl, cathod neu wrthrychau fel arfer yn weithred gyfeillgar

Nodwch sut mae eich cath yn hoffi cael ei hanwesu. Mae'n well gan y rhan fwyaf o gathod gael eu hanwesu ar eu pen ac o dan ei gên. Ni fydd llawer o gathod yn hoffi cael eu hanwesu ar eu hystumog a gallent ymateb yn amddiffynnol. Mae llawer o gathod yn mwynhau sesiynau byr, rheolaidd o gyswllt ag eraill, felly ystyriwch yr arwyddion gan eich cath ei bod wedi cael digon a rhowch le iddi fel sy'n briodol.

**Arwyddion o straen**

3.7 Mae cathod yn ymateb i straen mewn ffyrdd gwahanol ac mae'n bwysig eich bod yn gallu adnabod unrhyw newidiadau yn ymddygiad eich cath. Gan amlaf, pan fydd cathod yn bryderus, o dan straen, neu'n cael ofn, mae'n well ganddynt redeg i ffwrdd i le bach tawel. Mae hyn yn beth arferol, ond mae'n achos pryder os yw'n digwydd yn amlach na bob hyn a hyn.

DRAFT

3.8 Pan fydd cath yn cael ofn neu pan na all ddianc, gall arwain at ymddygiad ymosodol. Efallai y bydd cath yn hisian, poeri neu anelu ergyd at rywun â'i phawen os yw'n teimlo dan fygythiad.

3.9 Efallai na fydd rhai cathod sy'n teimlo'n bryderus, o dan straen, neu'n ofnus yn ymgymryd â gweithgareddau arferol megis bwyta, cysgu a glanhau eu hunain. Efallai y bydd eich cath yn baeddu yn y tŷ os oes ofn arni fynd y tu allan neu fynd i'w blwch sarn. Gall cath chwistrellu troeth yn y tŷ hefyd os yw'n teimlo o dan straen; mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer cathod gwrywaidd heb eu hysbaddu neu os yw cathod eraill yn gwneud iddi deimlo straen.

3.10 Bydd arwyddion o bryder, straen ac ofn yn amrywio rhwng cathod, ond gall y rhain gynnwys:

- bod yn dawel ac yn ddi-sbonc neu gysgu'n ormodol
- bod yn nerfus a gwyliadwrus iawn
- bod yn anarferol o ymosodol tuag at bobl neu gathod eraill
- peidio â bwyta, yfed neu drin a golchi neu'n gwneud hyn yn llai aml
- ;
- bod yn aflonydd a pheidio â chysgu / cysgu gormod
- udo neu wneud synau anarferol
- dyhefod
- baeddu neu chwistrellu troeth yn y tŷ
- ymguddio drwy'r amser
- crwydro neu gerdded ar hyd y tŷ
- golchi ei blew yn ormodol neu dynnu ei blew
- llai o chwarae neu archwilio nag arfer
- bod yn or-sensitif neu'n or-ymatebol
- crymu'r cefn wrth orffwys, gyda'r pedair pawen yn cyffwrdd â'r llawr
- Clustiau gwastad, blew wedi'i godi, a chefn crwm

3.11 Mae'n bwysig eich bod yn gallu adnabod unrhyw rai o'r arwyddion hyn o straen yn eich cath; efallai y bydd rhai hefyd yn arwyddion o salwch. Os ydych yn pryderu, dylech gysylltu â'ch milfeddyg, a all eich cyfeirio at ymddygiadwr anifeiliaid.

**Osgoi perygl**

3.12 Ofn a gofid yw ymatebion sy'n galluogi anifeiliaid i osgoi sefyllfaoedd peryglus. Fodd bynnag, mae anifeiliaid sy'n wynebu sefyllfaoedd lle maent yn teimlo'n ofnus drwy'r amser yn mynd o dan straen mawr a gall hyn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

3.13 Mae'n rhan o ymddygiad naturiol cath i guddio rhag perygl gwirioneddol neu ganfyddedig yn ogystal ag amgylchiadau sy'n achosi straen. Mae'n well gan rai cathod guddio y tu mewn i bethau neu o dan bethau ond mae'n well gan eraill ddringo'n uchel. Dylech roi man cuddio diogel y gall eich cath bob amser ei gyrraedd yn hawdd fel y gall ymguddio rhag sefyllfaoedd sy'n achosi straen,

DRAFFT

megis cyswllt ag anifeiliaid eraill neu bobl. Sicrhewch fod cyfleusterau o'r fath ar gael i bob cath os oes mwy nag un gennych.

**Ymddygiad ymosodol a chwarae**

3.14 Mae'n naturiol fod cathod yn amlygu ymddygiad hela. Nid yw hyn yn gysylltiedig â chwant bwyd, gan y bydd cathod sydd newydd fwyta yn parhau â'r awydd i hela weithiau. Fel arfer, nid yw'r cyfle i gwblhau'r ymddygiadau hyn gan gathod sy'n byw dan do, felly mae cyfrifoldeb ychwanegol gan geidwaid i sicrhau eu bod yn cael eu symbylu'n feddyliol ac yn gorfforol drwy chwarae gyda nhw a defnyddio teganau sy'n dynwared ymddygiadau hela. Gall y rhain gynnwys tegan ysgafn y gellir ei rholio neu un sy'n cynnwys ymddygiad dal, megis teganau ar ffurf gwialen bysgota. Gall cathod sy'n aros yn y tŷ hefyd gael eu symbylu'n feddyliol drwy gael eu bwydo gan 'borthwyr pos' sy'n rhyddhau bwyd sych yn raddol.

3.15 Dylech osgoi defnyddio’ch dwylo a'ch traed wrth chwarae â'ch cath gan y gall hyn annog iddynt ystyried eu bod yn darged hela ac ymosod arnynt, a allai arwain at niwed. Gallai hyn arwain at arfer yn dilyn hyn, a allai hefyd arwain at niwed pan fydd rhywun yn ceisio ei anwesu.

**Crafu**

3.16 Mae crafu arwynebau megis coed yn rhan o ymddygiad arferol cathod. Mae cathod yn crafu pethau am nifer o resymau, gan gynnwys er mwyn trin eu crafangau a chryfhau eu cyhyrau. Mae gan gathod chwarennau sy'n gallu arogleuo rhwng y padiau ar eu pawennau, sy'n creu arogl unigryw, felly mae crafu'n bwysig hefyd er mwyn gadael olion arogl.

3.17 Mae'n well gan gathod drin eu crafangau ar gyfleusterau sy'n ddigon uchel iddynt ymestyn i'w llawn uchder ac yn ddigon sefydlog fel na fyddant yn cwympo pan gânt eu defnyddio. Dyna pam mae cathod yn aml yn crafu dodrefn i drin eu crafangau. Er mwyn osgoi neu leihau difrod i ddodrefn, gallwch ddarparu postyn crafu; mae'r rhain ar gael yn y rhan fwyaf o siopau anifeiliaid anwes neu gellir eu gwneud gartref. Dylai'r postyn fod yn sefydlog ac yn ddigon uchel i'r gath ymestyn yn llawn wrth ei ddefnyddio.

**Ymarfer corff**

3.18 Sicrhewch fod eich cath yn cael ymarfer corff bob dydd i gadw'n holliach. Os nad yw'n mynd y tu allan, darparwch weithgareddau addas yn y tŷ fel nad yw'r gath yn mynd yn rhy segur.

**Hyfforddiant**



DRAFT

3.x Peidiwch â gweiddi neu gosbi eich cath. Mae cosbi yn gwneud i gathod deimlo'n ofnus ac yn bryderus, a gallai hyn yn ei dro arwain at ymddygiadau annymunol, megis mynd i'r toiled mewn mannau amhriodol. Yn lle hyn, defnyddiwch ganmoliaeth a gwobrwyon pan fydd eich cath yn ymddwyn yn ddymunol. Bydd y math o wobr yn amrywio rhwng cathod, ond gallai hyn gynnwys bwydydd a ffafrir o'u dogn bwyd beunyddiol, chwarae neu anwesu. Os yw ymddygiad eich cath yn peri pryder neu'n achosi problemau, gofynnwch am gyngor milfeddyg, oherwydd efallai bod problem iechyd waelodol.

DRAFFT

**Adran 4: Cwmni**
***Yr angen i gael ei rhoi gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt***

4.1 Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar gwmni addas i'ch cath.

**Ymddygiad cymdeithasol**

4.2 Mae cathod heddiw yn dod o rywogaeth a arferai fyw bywyd unig iawn, ac, yn yr un modd, mae'n well gan lawer o gathod heddiw fyw ar eu pennau eu hunain, er y gallant ddysgu i oddef neu fyw gyda chathod eraill.

**Ymwneud ag anifeiliaid a phobl eraill**

4.3 Gall cathod ddysgu i fyw â chathod eraill y maent wedi cael eu magu gyda hwy neu y maent yn gyfarwydd iawn â hwy, ond byddant yn teimlo bygythiad mawr gan gathod y tu allan i'r grŵp cyfarwydd hwn. Mae goddefgarwch cathod tuag at gathod eraill hefyd yn amrywio yn ôl eu profiadau cynnar (gweler Adran 3), felly gall eu gallu a'u dymuniad i gymdeithasoli amrywio cryn dipyn. Felly mae'n well peidio â chadw cathod nad ydynt yn perthyn neu ormod ohonynt gyda'i gilydd, yn enwedig os na allant fynd y tu allan.

4.4 Pan fydd cathod yn dod i gysylltiad agos â chathod eraill nad ydynt yn eu hoffi, gall hyn achosi straen mawr iddynt. Felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod sut y mae'ch cathod yn ymateb i gathod eraill, y rhai a gedwir yn yr un tŷ yn ogystal â'r rhai yn y gymdogaeth. Mewn tŷ lle ceir mwy nag un gath, dylai fod yn bosibl iddynt osgoi ei gilydd.

4.5 Efallai y bydd cathod dan straen yn eistedd yn llonydd neu'n ymguddio, gan geisio osgoi ymwneud â chathod eraill. Mewn rhai achosion, gallant faeddu neu droethi y tu mewn neu ddangos arwyddion eraill o straen (gweler Adran 3).

4.6 Gall oedolion neu blant nad ydynt yn deall anghenion cathod, na sut i'w trin yn gywir, achosi straen iddynt. Dylai oedolion cyfrifol sicrhau bod cathod sydd yn eu gofal yn cael eu trin yn briodol ac nad yw oedolion, plant nac anifeiliaid eraill yn achosi straen nac yn eu peryglu. Dylid cyflwyno cŵn i gathod yn raddol iawn ac mewn ffordd ofalus; dylid rhwystro'r ci rhag mynd ar ôl y gath yn ystod unrhyw gyflwyniadau – er enghraifft, efallai y byddai'n well cadw'r ci'n ddiogel ar dennyn.

**Pan fyddwch oddi cartref**

4.7 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau y gofelir am eich cath yn briodol pan fyddwch oddi cartref. Chi sy'n gyfrifol am anghenion eich anifail bob amser. Os nad ydych yn gallu gofalu am eich cath ar unrhyw adeg,

DRAFT

mae'n rhaid i chi wneud trefniadau i rywun arall addas ofalu amdani ar eich rhan. Chi sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith hyd yn oed pan fyddwch oddi cartref, er bod yr unigolyn sy'n gofalu am y gath pan na fyddwch yno yn gyfrifol hefyd. Mae'n well gan lawer o gathod aros yn eu hamgylchedd cyfarwydd, ond dylech ystyried sut y bydd eich cath yn ymdopi pan fyddwch yn absennol, pa mor hir y byddwch oddi cartref, ac a fydd cymydog neu warchodwr cathod yn gallu diwallu anghenion eich cath. Dylech ystyried a fyddai cathdy da yn well, lle y gall rhywun sy'n gyfarwydd â gofalu am gathod gadw llygad mwy manwl arni a gofalu amdani. Mae'n rhaid i bob cathdy sy'n rhoi llety gael ei drwyddedu o dan y gyfraith. Pan fydd rhywun arall yn gofalu am eich cath hwy sy'n gyfrifol am ei lles a dylech sicrhau eu bod yn deall ei hanghenion ac unrhyw ofynion arbennig sydd ganddi.

**Niferoedd o anifeiliaid**

4.8 Os cedwir llawer o anifeiliaid gyda'i gilydd, gall hyn gyfrannu at amgylchedd sy'n achosi straen ac afiechyd. Mae angen gofal mawr ar niferoedd mawr o anifeiliaid ac ni ddylech gadw nifer fawr o gathod os na allwch ddiwallu eu hanghenion lles. Os na chânt eu cadw mewn amgylchiadau hylan, gall yr amgylchedd gael ei heintio gan gyfryngau heintus a pharasitiaid a all achosi afiechyd, a all ymledu rhwng anifeiliaid a phobl.

Pan fydd niferoedd o gathod yn byw gyda'i gilydd, gwnewch yn siŵr bod digon o le iddynt fod ar wahân i'w gilydd os ydynt am wneud hynny, a bod digon o adnoddau ar gyfer pob un, gan gynnwys blychau sarn, gwlâu, teganau, bwyd a phowlenni dŵr.

Os ydych yn canfod ei bod yn rhy anodd neu'n orfeichus i ofalu am eich cathod ar unrhyw adeg, efallai y bydd elusennau lleol yn gallu cynnig cymorth.

DRAFT

**<u>Adran 5: Iechyd</u>**
***Yr angen i'w diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd***

5.1 Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar iechyd a lles eich cath.

**Gofal iechyd**

5.2 Mae iechyd da yn rhan hanfodol o les da cathod. Eich milfeddyg yw'r person gorau i'ch cynghori ynglŷn â gofal iechyd rheolaidd, megis ysbaddu, brechu a thrin paraseitiaid mewnol ac allanol, yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd a all godi.

Fel y sawl sy'n gyfrifol am les eich cath, mae angen i chi ystyried:

- atal afiechyd. Ceir gwahanol frechiadau sydd â'r nod o ddiogelu'ch cath(od) rhag afiechydon penodol;
- atal problemau o ran paraseitiaid – mae llawer o sylweddau dilyngru a thrin chwain ar gael. Bydd eich milfeddyg proffesiynol yn gallu eich cynghori ynglŷn â'r hyn sy'n addas i'ch cath;
- darparu deiet cytbwys ac iach (gweler Adran 2);
- darparu'r amgylchedd iawn sy'n lleihau'r risg o anaf ac afiechyd (gweler Adran 1);
- gweithredu'n ddi-oed os bydd cath yn mynd yn sâl neu'n ymddwyn mewn ffordd anarferol;
- hylendid deintyddol da; a
- thrin a golchi priodol. Mae'r holl gathod yn elwa o gael eu trin a'u golchi'n rheolaidd, ond bydd angen trin a golchi cathod sydd â blew hir yn arbennig er mwyn sicrhau nad yw eu cotiau yn mynd yn ddryslyd gan achosi salwch.

**Salwch**

5.3 Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o arwyddion o salwch yn eich cath, a dylid edrych amdanynt bob dydd ac ymgynghori â milfeddyg yn ddi-oed os byddant yn codi.

Gall yr arwyddion o salwch neu anaf gynnwys:

- newid mewn ymddygiad, megis mynd yn dawel neu fynd i'w chragen;
- newid o ran arferion bwyta neu yfed, megis dim archwaeth neu sychder mawr;
- newid mewn pwysau, colli neu fagu pwysau
- arwyddion o anaf fel coes wedi chwyddo neu gerdded mewn ffordd anarferol;
- arwyddion o afiechyd, megis rhedlif o'r llygaid, y clustiau neu'r trwyn, anhawster mynd i'r toiled, neu fynd i'r toiled yn fwy neu'n llai aml, cyfogi a dolur rhydd;
- arwyddion o boen, megis bod yn amharod i gael ei chyffwrdd mewn man sensitif; a
- cholli llawer o flew, colli pwysau, neu grafu

DRAFFT

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr a dylai unrhyw newid yn ymddygiad eich cath wneud i chi ystyried y posibilrwydd y gall fod yn sâl. Os credwch fod rhywbeth o'i le ar eich cath, ffoniwch eich milfeddygfa am gyngor.

**Trin a golchi**

5.4 Mae ymddygiadau naturiol eraill ymhlith cathod yn cynnwys golchi a chael gwared ar glymau. Fodd bynnag, mae angen help ar rai cathod i ofalu am eu blew. Os yw'ch cath yn un hirflew, cofiwch y bydd angen i chi gribo ei blew o leiaf unwaith y dydd er mwyn osgoi clymau. Hefyd efallai y bydd angen sylw arbennig ar eich cath pan fydd yn gwella ar ôl salwch neu anaf. Pan fydd cathod yn rhoi'r gorau i'w golchi eu hunain, dylai ceidwaid geisio cyngor gan eu milfeddyg, gan fod hyn yn gallu bod yn arwydd o straen neu afiechyd.

**Ysbaddu**

5.5 Un ystyriaeth bwysig iawn yw atal toreidiau diangen. Oherwydd hyn, dylech ystyried ysbaddu eich cath. Gellir ysbaddu cathod o tua phedwar mis ymlaen, ond mae'n bosibl ei wneud yn ddiogel yn gynharach; bydd eich milfeddyg yn gallu eich cynghori ynglŷn â'r oedran gorau. O ran cathod benyw, mae'n well eu hysbaddu cyn iddynt brifio a chyrraedd eu tymor cyntaf, sef y cyfnod pan allent ddod yn feichiog. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan fyddant rhwng pedwar a chwe mis oed, felly dyma pam mae pedwar mis yw'r cyfnod hanfodol ar gyfer ysbaddu, er mwyn osgoi toreidiau diangen.

Mae sawl mantais i drefnu i'ch cath gael ei hysbaddu:

- gall cathod benyw roi genedigaeth i gynifer â thair torraid y flwyddyn os na chânt eu hysbaddu. Gall cath roi genedigaeth i hyd at bump neu chwech o gathod bach mewn torraid, gan roi genedigaeth i hyd at 18 o gathod bach nad oes eu hangen bob blwyddyn felly efallai y bydd gennych fwy o gathod nag y gallwch ofalu amdanynt yn iawn;
- mae rhoi genedigaeth yn faich ar y gath a gall ei disgwyliad oes leihau os yw'n rhoi genedigaeth yn fynych.
- mae ysbaddu cathod benyw yn golygu na fyddant yn dioddef heintiadau i'r groth yn nes ymlaen;
- mae anifeiliaid gwryw heb eu hysbaddu yn fwy tebygol o chwistrellu troeth sy'n arogli'n gryf y tu mewn i'w cartref;
- mae anifeiliaid gwryw heb eu hysbaddu yn fwy tebygol o grwydro'n eang ac ymladd. Mae ysbaddu yn lleihau'r risg o grawniadau o ganlyniad i ymladd neu anafiadau a achosir gan ddamweiniau ffyrdd;
- gall anifail gwryw heb ei ysbaddu achosi gofid i gymdogion drwy chwistrellu troeth ger eu cartrefi, ymladd â'u cathod hwythau a bod yn swnllyd;

DRAFT

- gall hormonau cenhedlu ddylanwadu ar ymddygiad anifeiliaid heb eu hysbaddu. Gall hyn beri i anifeiliaid gadw sŵn mawr ('galw') i ddangos eu bod ar gael yn ogystal ag ymladd, crwydro a nodi eu tiriogaeth;
- Mae Firws Lewcemia Cathod (FeLV) a Firws Imiwnoddiffygiant Cathod (FIV) yn glefydau difrifol a ledaenir drwy boer. Gan fod anifeiliaid wedi'u hysbaddu yn llai tebygol o grwydro ac ymladd, mae'n llai tebygol y byddant yn cael yr haint neu'n lledaenu'r heintiau hyn i gathod eraill; a
- mae ysbaddu yn atal datblygiad canser y groth neu ganser y ceilliau ac yn lleihau'r risg y bydd cathod benyw yn datblygu tyfiant ar y tethi.

Os penderfynwch beidio â threfnu i'ch cath gael ei hysbaddu ac os dymunwch iddi fridio, dylech geisio am gyngor milfeddyg cyn caniatáu hynny. Mae sawl ystyriaeth, gan gynnwys:

- dod o hyd i gartrefi addas i'r cathod bach; a
- sgrinio iechyd i sicrhau nad oes gan y rhieni ddiffygion etifeddol y gellir eu trosglwyddo i'w hepil.
- osgoi nodweddion goramlwg yn y dorllwyth, megis wynebau gwastad iawn, coesau byr, dim cynffon, clustiau cyrliog neu wastad, dim blew – gan y bydd y rhain yn arwain at broblemau iechyd a lles. Nid yw hyn yn rhestr gynhwysfawr a dylid ymgynghori â'ch milfeddyg i gael rhagor o gyngor.
- y pryderon o ran lles o ganlyniad i fridio cathod cartref gyda rhywogaethau amrywiol o gathod gwyllt er mwyn magu cathod cymysgryw. Nid yw amgylchedd domestig, fel arfer, yn addas ar gyfer cathod fel y rhain.

Bydd angen i chi hefyd ystyried problem bosibl cyplu nas cynlluniwyd.

Efallai y bydd help ar gael oddi wrth wahanol elusennau, sy'n cynnig ysbaddu am gyfradd ostyngol i'r rhai sy'n cael budd-daliadau neu sydd ar incwm isel.

Dylid trafod manteision ac anfanteision ysbaddu'ch cath gyda'ch milfeddyg, yn ogystal â'r amseriad, er mwyn penderfynu beth fyddai orau iddi.

**Adnabod**

5.6 Defnyddir dau ddull o adnabod cath fel arfer (y gellir eu defnyddio ar y cyd) i helpu i olrhain ceidwad cath pe bai'n mynd ar goll. Y rhain yw:

- gosod microsglodyn – y dull gorau o adnabod. Sglodyn cyfrifiadurol bach iawn yw microsglodyn, tua maint gronyn o reis, sy'n cynnwys rhif adnabod unigryw. Fe'i chwistrellir o dan groen anifail anwes gan filfeddyg neu arbenigwr gofal anifeiliaid anwes hyfforddedig a chedwir manylion y ceidwad ar gronfa ddata. Dylech sicrhau bod eich manylion yn gyfredol neu'n cael eu newid os yw'r gath yn mynd

DRAFFT

i gartref arall, gan y bydd hyn yn hwyluso'r broses o ganfod y ceidwad os yw'n mynd ar goll. Os deuir o hyd i anifail ac os eir ag ef i ganolfan achub neu filfeddyg, bydd yn cael ei sganio gyda darllenydd i weld a oes microsglodyn o dan y croen. Yna bydd modd olrhain y ceidwad drwy'r rhif a ddangosir ar y darllenydd;

- rhoi coler sy'n cynnwys manylion cyswllt ceidwad y gath. Os bwriedir rhoi coler ar gath, dylid defnyddio coler sy'n 'rhyddhau sydyn' neu 'agoriad snap' sydd wedi'i osod yn gywir, gan fod hynny'n golygu bod y gath yn llai tebygol o gael ei dal pe bai'r coler yn cael ei dal ar rywbeth. Dylai'r coler fod o'r maint cywir (nid yn rhy dynn nac yn rhy lac) a dylech fod yn gallu gosod dau fys oddi tano pan fydd y gath yn ei wisgo. Gallai coes neu ên cath gael ei dal mewn coler elastig neu un nad yw'n ffitio'n dda a gall hyn arwain at anaf difrifol. Gall coler fynd ar goll hefyd.

**Beth i'w wneud os yw eich cath yn mynd ar goll**

5.7 Dylech gysylltu â milfeddygon a chanolfannau achub lleol yn ogystal â'r rhai mewn ardal ehangach gan y gall cathod deithio cryn bellter os ânt ar goll. Gallwch hefyd osod hysbysiadau yn lleol ond dylid cymryd gofal i beidio â phostio'n anghyfreithlon, a gallwch ofyn i'ch cymdogion chwilio yn eu siediau neu eu garejys rhag ofn bod eich cath wedi cael ei chloi i mewn ar ddamwain. Os oes gan eich cath ficrosglodyn, bydd modd ei hadnabod fel eich cath chi pan gaiff ei sganio gan ddarllenydd microsglodyn a bydd hyn yn golygu y gellir ei dychwelyd yn gynt. Edrychwch ar-lein ar wefannau eitemau a gollwyd ac a ddarganfuwyd eich ardal leol, a chofrestrwch eich anifail anwes ar gronfa ddata anifail anwes genedlaethol.

Bioddiogelwch

Dylech gyflawni'r holl ragofalon angenrheidiol er mwyn atal eich cath rhag cael ei heintio neu ledu heintiau i gathod eraill. Mewn cartrefi neu safleoedd sydd â niferoedd o gathod megis canolfannau achub neu lety ar gyfer cathod, efallai bod risg uwch o ledu afiechydon heintus o fewn lle cyfyng, felly dylid cymryd mwy o ragofalon. Ym mhob achos, cysylltwch â'ch milfeddyg.

DRAFT

## Atodiad 1

## Y Gyfraith

**Deddf Lles Anifeiliaid 2006**

**Cyfeirir at yr adrannau canlynol o'r Ddeddf yn y cod ac fe'u nodir yma er hwylustod:**

Mae'r blychau isod yn cynnwys darnau o'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf.

Mae'r blwch wedi'i dywyllu yn crynhoi'r troseddau a'r cosbau perthnasol yn y Ddeddf.

Mae Adran 3 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu:

**Responsibility for animals**

(1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.

(2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.

(3) For the purposes of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.

(4) For the purposes of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

Section 4 of the Animal Welfare Act 2006 provides:

**Unnecessary suffering**

(1) A person commits an offence if –
(a) ân act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
(b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so,
(c) the animal is a protected animal, and
(d) the suffering is unnecessary.

(2) A person commits an offence if-
(a) he is responsible for an animal,
(b) ân act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,
(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way

DRAFT

of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
(d) the suffering is unnecessary.

(3) The considerations to which it is relevant to have regard when determining for the purposes of this section whether suffering is unnecessary include –
(a) whether the suffering could reasonably have been avoided or reduced;
(b) whether the conduct which caused the suffering was in compliance with any relevant enactment or any relevant provisions of a licence or code of practice issued under an enactment;
(c) whether the conduct which caused the suffering was for a legitimate purpose, such as –
   (i) the purpose of benefiting the animal, or
   (ii) the purpose of protecting a person, property or other animal;
(d) whether the suffering was proportionate to the purpose of the conduct concerned;
(e) whether the conduct concerned was in all the circumstances that of a reasonably competent and humane person.
(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Mae'n rhaid i ewthanasia gael ei wneud mewn dull priodol a dyngarol yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid 9:

**Duty of person responsible for animal to ensure welfare**

(1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

(2) For the purpose of this Act, an animal's needs shall be taken to include-
(a) its need for a suitable environment,
(b) its need for a suitable diet,
(c) its need to be able to exhibit normal behaviour patterns,
(d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals, and
(e) its need to be protected from pain, suffering, injury and disease.

(3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular –
(a) any lawful purpose for which the animal is kept, and
(b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

DRAFT

Mae'n rhaid i ewthanasia gael ei wneud mewn dull priodol a dyngarol yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid 14:

**Codes of Practice**

……..

(3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.

(4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13 –

(a) a failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability, and

(b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

DRAFT

**Offences and Penalties**

A person who is convicted of an offence under section 4 of the Act may be imprisoned for a maximum period of 51 weeks* and/or fined up to £20,000. If they are convicted of an offence under section 9 (failing to ensure the animal's welfare) they can be imprisoned for the same maximum period and fined up to level 5 on the standard scale.

Proceedings may be brought up to 3 years after the offence was committed. Prosecutions under the Act are brought by the local authority in the Magistrates Court.

* The maximum period of imprisonment will be 51 weeks when section 281 (5) of the Criminal Justice Act 2003 comes into force.

## Other legislation affecting cats

The **Animal Welfare (Electronic Collars) (Wales) Regulations 2010** make it an offence for a device capable of emitting an electric shock to be attached to a dog or cat. Devices include remote training collars and 'invisible' fences that emit a shock via a collar.

**Appendix 2**

**Sources of information**

- Your vet.
    - The Royal College of Veterinary Surgeons, Belgravia House, 62-64 Horseferry Road, London SW1P 2AF. The website has a "find-a-vet" facility: www.rcvs.org.uk
- Local libraries for books on cat care.
- Websites such as:
    - Association of Pet Behaviour Counsellors : www.apbc.org.uk
    - Battersea Dogs and Cats Home: www.battersea.org.uk
    - Blue Cross: www.bluecross.org.uk.
    - British Small Animal Veterinary Association: www.bsava.com
    - British Veterinary Association: www.bva.co.uk
    - Cats Protection: www.cats.org.uk.
    - International Cat Care: www.icatcare.org/ .
    - Governing Council of the Cat Fancy in the UK: www.gccf.org.uk
    - PDSA: www.pdsa.org.uk.
    - Pet Care Trust: www.petcare.org.uk.
    - Pet Food Manufacturers Association: www.pfma.com.
    - Pet Health Council: www.pethealthcouncil.co.uk
    - RSPCA Cymru: www.rspca.cymru.
    - The Cat Group: www.thecatgroup.org.uk.
    - Welsh Government website for information on the Animal Welfare Act and to download the Code of Practice for the Welfare of Cats: www.wales.gov.uk/animalwelfare

DRAFT